

Keith Rutherford
Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol a Thai
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Canolfan Sifil
Pont-y-pŵl
Torfaen
NP4 6YB

Dyddiad: 04 Dachwedd 2021

Annwyl Gyfarwyddwr,

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – Archwiliad Sicrwydd 2021: Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi canfyddiadau ein archwiliad sicrwydd a gynhaliwyd rhwng 21 a 24 Mehefin 2021. Diben y archwiliad sicrwydd hwn oedd gweld pa mor dda y mae gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant.

Trosolwg

Ym mis Mawrth 2020, gohiriodd AGC ei rhaglen arferol mewn ymateb i bandemig COVID-19 er mwyn galluogi darparwyr ac awdurdodau lleol i ganolbwyntio'n llawn ar ymateb i'r amgylchiadau heriol. Ailddechreuodd rhaglen ddiwygiedig gydag awdurdodau lleol ym mis Medi er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch sut mae pobl yn cael eu diogelu a sut mae eu llesiant yn cael ei hybu yn ystod y pandemig. Gwnaethom ystyried diogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, neu y gall fod angen iddynt eu defnyddio, diogelwch y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio a diogelwch a llesiant y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau hynny. Roedd ein prif lwybrau ymholi yn seiliedig ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac rydym wedi cofnodi ein barn a'n canfyddiadau yn unol â'r rhain, sef: Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Partneriaethau ac Integreiddio, Llesiant.

Gwnaethom ganolbwyntio ar y canlynol:

1. Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cyflawni ei swyddogaethau statudol o ran cadw pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yn ddiogel, a hybu eu llesiant, yn ystod y pandemig?

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
✉ CIW@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

2. Beth mae'r awdurdod lleol yn ei wneud fel nad oes angen i blant dderbyn gofal; ac a yw plant yn dychwelyd adref at eu teuluoedd yn ddigon cyflym, lle mae'n ddiogel iddynt wneud hynny?

Crynodeb o'r canfyddiadau a blaenoriaethau ar gyfer gwella:

Pobl – llais a rheolaeth – Gwnaethom ofyn: Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod lleisiau pobl, gofalywyr ac ymarferwyr yn cael eu clywed, eu bod yn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth ac yn cynnal rheolaeth dros eu bywydau, gan gydbwysu hefyd yr argymhellion a'r gofynion a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn cyfyngu ar ledaeniad COVID-19?

Mae'r awdurdod lleol wedi ymateb i'r heriau a wynebwyd yn sgil y pandemig mewn modd rhagweithiol. Dywedwyd wrthym fod Hwb Cymunedol Torfaen yn barod i ddarparu cymorth i bobl a oedd yn gwarchod o ddiwrnod cyntaf y cyfnod clo, gan gynnwys cymorth gyda thasgau ymarferol, megis cerdded cŵn a siopa.

Mae gan y rhan fwyaf o bobl lais a rheolaeth dros y gofal a'r cymorth y maent yn ei gael, ac mae'r ymarfer yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolion, y canlyniadau y maent am eu cyflawni, a'r ffordd y gallant ddefnyddio eu cryfderau a'u hadnoddau eu hunain i hybu eu llesiant. Ym maes gwasanaethau oedolion, mae lleisiau pobl yn cael eu cynrychioli'n dda wrth gynllunio gofal ar y cyfan. Yn y ffeiliau achos, gwelsom fod canlyniadau personol pobl yn cael eu cofnodi yn eu geiriau eu hunain. Gwelsom fod cryfderau a gwytnwch pobl yn cael eu cydnabod a'u defnyddio'n hyblyg i gefnogi pobl gartref.

Rhoddwyd systemau ar waith yn gyflym i gefnogi mwy o drefniadau gweithio ystwyth a gweithio o bell, lle y bo'n bosibl, gan sicrhau bod cyswllt diogel yn cael ei gynnal â phobl drwy gydol y pandemig. Yn ôl yr angen, mae cyswllt wyneb yn wyneb diogel uniongyrchol wedi parhau, yn amodol ar asesiadau risg, ac mae'r staff wedi cael lefelau priodol o gyfarpar diogelu personol. Gwelsom enghreifftiau o staff a darparwyr yn gweithio mewn ffyrdd creadigol i gyflawni eu cyfrifoldebau proffesiynol, megis adleoli staff canolfannau dydd i feysydd o angen â blaenoriaeth yn yr awdurdod lleol a gwasanaethau a gomisiynwyd.

Mae gwaith effeithiol gan uwch-reolwyr a staff, ynghyd ag ymrwymiad a buddsoddiad drwy arian trawsnewid, wedi arwain at ymatebion gwell i anghenion plant a theuluoedd. Drwy gyflwyno model a oedd yn seiliedig ar gryfderau ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau, siaradodd staff a phartneriaid am hyder cynyddol ym maes gwasanaethau plant. Mewn nifer o achosion, gwelsom fod plant a theuluoedd yr oedd angen cymorth a diogelwch arnynt yn cael gwasanaeth sy'n gymesur â'u hanghenion ac yn eu galluogi i wneud newid cadarnhaol.

Gwelsom nad oedd proffil gofalwyr mewn teuluoedd bob amser yn cael ei gydnabod yn llawn gan ymarferwyr. Mewn rhai o'r ffeiliau achos a welsom, nid oedd aelodau o'r teulu wedi'u nodi'n ofalwyr nac wedi cael cynnig asesiad, hyd yn oed lle roedd tystiolaeth o bwysau'r cyfrifoldebau gofalu ar eu llesiant. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pob gweithiwr yn gallu nodi gofalwyr a chynnig asesiad gofalwr fel yr amlinellir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 3 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Nid oeddem yn hyderus bod taliadau uniongyrchol yn cael eu cynnig i bobl fel mater o drefn, na bod pobl yn cael cymorth digonol i'w galluogi i fanteisio ar daliadau uniongyrchol. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pobl yn cael gwybodaeth am daliadau uniongyrchol i'w galluogi i arfer dewis a rheolaeth, lleisio eu barn a phenderfynu ar y ffordd orau o ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth a chyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r awdurdod lleol yn gwbl ymwybodol o'r angen i ddatblygu'r maes hwn. Hyd yma, mae wedi dod â'r Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol yn fewnol er mwyn gwneud gwelliannau.

Caiff yr angen am eiriolaeth ei gydnabod. Gwelsom dystiolaeth yn yr achosion a welwyd fod pobl yn cael eu cefnogi gan eiriolwyr ffurfiol ac anffurfiol. Clywsom am gynlluniau'r awdurdod lleol i gyflwyno ap newydd o'r enw Mind of My Own er mwyn gwella'r ffordd y mae'n cyfathrebu ymhellach a chynnig ffordd arall i blant a phobl ifanc gyfathrebu. Gwelsom fod y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo, a bod iaith gyntaf pobl yn cael ei chofnodi mewn maes gorfodol mewn dogfennau atgyfeirio ac asesu.

Dyweddod y staff wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod wedi cael cefnogaeth dda yn ystod y pandemig, a gwelsom fod y morâl yn gadarnhaol ymhlith y staff ar y cyfan. Roedd y staff yn gwerthfawrogi hygyrchedd y rheolwyr, gan gynnwys y tîm uwch-reolwyr, ynghyd â chymorth anffurfiol gan gymheiriaid. Gwerthfawrogwyd hyn yn arbennig o ystyried y cynnydd yn y galw a chymhlethdod achosion mewn gwasanaethau plant ac oedolion.

Atal – Gwnaethom ofyn: I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn llwyddo i hyrwyddo prosesau atal a lleihau'r angen am fwy o gymorth neu gymorth ffurfiol gan asiantaethau statudol?

Gwelsom seilweithiau integredig ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd i ymgorffori cymorth ataliol i bobl. Gwelsom fod gwasanaethau ataliol wedi parhau i weithio a chael eu datblygu drwy gydol y pandemig, er bod rhai gwasanaethau wedi cael eu darparu'n rhithwir. Mae'r gwaith i ddatblygu Cysylltwyr Cymunedol sy'n gweithio yn y gymuned i leihau ynysigrwydd cymdeithasol wedi parhau i gynyddu, gyda staff newydd yn cael eu cyflogi drwy gymorth ariannol ychwanegol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i gefnogi'r gwaith o ehangu'r gwasanaeth.

Mae gwasanaethau ataliol yn parhau i ddatblygu o fewn gwasanaethau plant ac maent wedi cael eu cryfhau drwy gymorth gan weithwyr cymdeithasol a dull partneriaeth o ymyrryd yn gynnar. Gydag atgyfeiriadau'n cael eu sgrinio gan y Panel Plant Agored i Niwed amlasiantaethol, mae'r gwasanaethau mwyaf priodol, megis y gwasanaeth Ffocws ar

Deuluoedd, yn darparu cymorth wedi'i dargedu drwy ymyriadau therapiwtig dwys sy'n seiliedig ar gryfderau i atal plant a theuluoedd, lle y bo'n briodol, rhag cael eu huwchgyfeirio i'r gwasanaethau statudol. Gwelsom y modd y mae polisi Trothwy Angen wedi'i adolygu yn dechrau meithrin dealltwriaeth a rennir o wasanaethau cyffredinol ac ataliol gydag asiantaethau partner.

Mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud drwy drawsnewid gwasanaethau plant i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ddiogel, sy'n flaenoriaeth a gydnabyddir ar gyfer yr awdurdod lleol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu lleihad graddol yn nifer y plant sy'n dechrau derbyn gofal. Gwelsom fod asiantaethau partner yn cydweithio â'r awdurdod lleol drwy'r Panel Achosion Cymhleth i sicrhau mai dim ond yr achosion mwyaf priodol sy'n dod yn rhan o'r system derbyn gofal, ac i adolygu'r llwybr gofal ar gyfer y rhai sydd eisoes yn rhan o'r system i gamu i lawr i opsiynau gofal amgen, gan gynnwys dychwelyd at eu teuluoedd. Siaradodd staff a phartneriaid am arwyddocâd Cam wrth Gam a Fy Nhîm Cymorth sy'n gweithio'n ddyfal gyda theuluoedd i atal pobl ifanc rhag dod i mewn i'r system ofal. Mae'r awdurdod wedi chwarae rhan ragweithiol yn y broses o ddirymu nifer o orchmynion gofal a'u troi'n Orchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig, gan sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau ar gyfer pobl ifanc. Ers 1 Ebrill 2020, mae 25 o Orchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig wedi cael eu cyfnewid ac mae 35 o Orchmynion Gofal wedi cael eu diddymu. Mae gwaith parhaus yn mynd rhagddo gyda'r Llysoedd a'r Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) ar gynllun peilot sydd â'r nod o gyflymu'r broses o ddiddymu gorchmynion o'r fath drwy broses ymwithiol.

Ar lefel strategol, mae'r bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol yn cydweithio'n agos i flaenoriaethu'r gwaith o gefnogi oedolion i aros yn eu cartrefi eu hunain yn hytrach na lleoliadau gofal. Un enghraifft o hyn yw cynnig opsiynau Cymorth Cam i fyny er mwyn galluogi pobl i aros yn eu cymuned drwy ddefnyddio gwasanaethau yn hytrach na chael eu derbyn i'r ysbyty'n ddiangen.

Ym maes gwasanaethau oedolion, gwelsom a chlywsom fod gweithwyr proffesiynol amlasiantaethol sy'n rhan o'r Tîm Adnoddau Cymunedol/Ailalluogi yn cydweithio i gefnogi llesiant a diogelwch pobl. Gwelsom dystiolaeth o gyfarpar priodol a thechnoleg gynorthwyol yn cael eu darparu i gefnogi annibyniaeth, llesiant a diogelwch pobl. Roedd hyn yn galluogi pobl i aros yn eu cartref yn ddiogel lle bynnag y bo'n bosibl, gan osgoi'r angen i gael eu derbyn i'r ysbyty neu gartref gofal preswyl.

Partneriaethau ac Integreiddio – Gwnaethom ofyn: I ba raddau y gall yr awdurdod lleol fodloni ei hun yr achubir ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth mewn ffordd gadarnhaol er mwyn gwneud y mwyaf o gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sicrhau y darperir gwasanaethau integredig mewn modd cynaliadwy?

Mae'r awdurdod lleol yn sefydliad sy'n dysgu sy'n agored i graffu allanol ac sy'n ymrwymedig i wella'n barhaus. Mae dealltwriaeth glir o'r buddiannau a'r heriau a wynebwr gan yr awdurdod lleol. Mae archwiliadau annibynnol a gwaith sicrhau ansawdd wedi cael

dylanwad clir ar welliannau i'r gwasanaeth ac ymarfer, gan ddangos parodrwydd i ddysgu a pharhau i ddatblygu.

Roedd partneriaethau'n gweithio'n dda ar bob lefel ac yn darparu dull cynaliadwy integredig o ddiwallu anghenion a hybu llesiant yn unol â deddfwriaeth.

Siaradodd y darparwyr yn gadarnhaol iawn am y cymorth a gafwyd gan yr awdurdod lleol yn ystod y pandemig. Roedd yn gwerthfawrogi lefel y cyfathrebu ac ansawdd y cyngor a'r cymorth amserol. Soniodd llawer am ddiwylliant o gydweithio a'r ffordd yr oedd cydberthnasau wedi'u cryfhau yn ystod y pandemig. Un enghraifft benodol fu meithrin cydberthynas waith fwy cydweithredol rhwng comisiynwyr a darparwyr cartrefi gofal. Dywedodd llawer o ddarparwyr wrthym am ddeialog dda, agored a gonest i ateb heriau sylweddol y pandemig, gyda'r ddau yn nodi mwy o ymddiriedaeth, didwylledd a thryloywder yn eu gwaith.

Cyfeiriodd yr holl bartneriaid at y gydberthynas gadarnhaol â'r tîm diogelu. Gwelsom dystiolaeth o gydweithio da rhwng y gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu, addysg a'r trydydd sector, gan weithio'n uniongyrchol gyda phobl i gyflawni eu canlyniadau diogelwch. Gwelsom enghreifftiau cadarnhaol o ddefnyddio dull gweithredu amlasiantaethol wrth reoli risgiau, ac ymarferwyr yn nodi ac yn monitro plant ac oedolion agored i niwed sy'n wynebu risg. Gwelsom bartneriaeth sefydledig yn gweithio gyda'r holl asiantaethau perthnasol lle y nodwyd pryderon ynghylch amddiffyn plant.

Ar lefel unigol, gwelsom enghreifftiau o gydberthnasau gwaith da rhwng gweithwyr proffesiynol a phobl sy'n derbyn gofal a/neu gymorth. Roedd eu hymarfer yn barchus a gwelsom fod y staff yn ymdrechu i ddeall amgylchiadau pobl ac i gefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Roedd y staff yn ymdrechu'n gyson i feithrin cydberthnasau proffesiynol â phobl.

Mae gwaith sylweddol gyda'r sector Tai a'r bwrdd iechyd wedi arwain at adeiladu Tŷ Glas y Dorlan. Bydd yr adeilad hwn yn darparu amrywiaeth hyblyg o lety, gydag opsiynau cam i fyny/cam i lawr yn y gymuned. Bydd hefyd amrywiaeth o wasanaethau cymorth amlasiantaethol ar gael sy'n cefnogi cynhwysiant cymdeithasol i oedolion yn Nhorfaen.

Llesiant – Gwnaethom ofyn: I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn hybu llesiant, gan sicrhau bod pobl yn aros yn ddiogel ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol sydd o bwys iddynt?

Mae'r awdurdod lleol wedi arfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac mae'n sicrhau ei fod yn cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Mae ymrwymiad clir a chymorth gwleidyddol ar gyfer gwasanaethau oedolion a gwasanaethau plant a dealltwriaeth dda o'u cryfderau a'u heriau presennol.

Gwelsom rywfaint o dystiolaeth o bobl yn cael galwadau gwasanaeth gofal cartref 15 munud er mwyn helpu gyda gofal personol a pharatoi bwyd. Dywedodd yr awdurdod lleol wrthym ei fod yn bodloni ei hun ynghylch amseru'r galwadau hyn drwy'r broses adolygu. Dywedodd darparwyr y gallant atgyfeirio materion yn ôl os na ellir cwblhau'r tasgau mewn ffordd sy'n cynnal llesiant yr unigolyn. Rhaid i'r awdurdod lleol fodloni ei hun bod pob ymweliad yn ddigon hir i sicrhau y darperir gofal a chymorth yn briodol i ddiwallu'r anghenion a aseswyd a helpu'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol.

Yn ystod y pandemig, mae'r awdurdod lleol wedi bwrw ati i ddatblygu, addasu a darparu gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol er mwyn hybu llesiant pobl. Gwelsom enghreifftiau o gynlluniau wrth gefn a blaenoriaethu'r gwasanaethau a ddarperir. Clywsom am nifer o enghreifftiau cadarnhaol o'r modd roedd y gwasanaethau/cymorth a oedd yn cael eu darparu wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol i ddiogelwch a llesiant llawer o bobl yn ystod y pandemig.

Gwelsom fod y gwasanaethau oedolion a'r gwasanaethau plant yn ymateb yn brydlon i ymholiadau diogelu, ac yn cynnal ymchwiliadau yn unol â gofynion statudol, gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol i'r bobl. Dywedodd y rheolwyr a'r ymarferwyr eu bod yn hyderus bod plant yn yr awdurdod yn ddiogel. Roedd tystiolaeth o hyn yn y ffeiliau a welsom. Lle roedd plant yn wynebu risg o niwed sylweddol, roedd yr ymateb yn amserol ac yn effeithiol. Roedd yr ymholiadau a welwyd mewn perthynas ag adran 47 yn dangos bod prosesau casglu gwybodaeth da ar waith, ac roedd tystiolaeth i ddangos bod plant yn cael eu gweld/eu gweld ar eu pen eu hunain fel y bo'n briodol ar bob cam o'r ymholiad.

Roedd y rhan fwyaf o'r asesiadau a welsom yn seiliedig ar gryfderau, gan ganolbwyntio ar yr hyn a oedd yn bwysig i'r unigolyn a'r canlyniadau yr oedd am eu cyflawni. Roeddent wedi'u strwythuro o amgylch y pum elfen asesu ac yn seiliedig ar sgysiau rhwng yr unigolyn, y gofalwr/y teulu ehangach a'r ymarferwyr.

Fel sy'n wir am lawer o awdurdodau lleol, mae recriwtio ym maes gwasanaethau oedolion a phlant yn parhau i fod yn arbennig o heriol, a lle y bu penodiadau'n bosibl, maent wedi tueddu i fod yn weithwyr cymdeithasol sydd wedi cymhwyso'n fwy diweddar. Roedd materion o ran capasiti, ynghyd â chymhlethdod achosion, yn achosi pwysau yn rhai o'r timau. Soniodd uwch-reolwyr am heriau wrth recriwtio i swyddi fel Therapyddion Galwedigaethol a Chynorthwyr Personol sy'n cefnogi'r rhai sy'n gadael gofal mewn tîm 16+, sef maes lle nad yw recriwtio wedi bod yn broblem yn y gorffennol. Wrth i waith fynd rhagddo i drawsnewidiad gwasanaethau gyda'r nod o ddatblygu nifer o wasanaethu newydd a gwasanaethau sy'n bodoli eisoes, rhaid i'r awdurdod sicrhau bod ganddo'r broses ar waith sy'n ei alluogi i gystadlu ag awdurdodau lleol eraill, y mae pob un ohonynt yn ceisio recriwtio'r staff mwyaf priodol sy'n meddu ar y gallu i roi unrhyw arferion gweithio newydd a phresennol ar waith yn ddiogel i gyflawni'r canlyniadau gorau i bobl.

Dull:

- gwnaethom fwrw golwg dros y ddogfennaeth a ddarparwyd cyn ein hymweliad
- gwnaethom siarad â mwy nag 20 o bobl, rhai pobl sy'n cael eu cefnogi gan wasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.
- gwnaethom edrych ar 26 o achosion a gwnaethom gynnal trafodaethau olrhain achosion ar 10 o ffeiliau achos pellach
- gwnaethom siarad â mwy na 68 o aelodau o staff proffesiynol
- gwnaethom gynnal naw grŵp ffocws

Y Camau Nesaf:

Rydym wedi nodi cryfderau a meysydd i'w gwella fel blaenoriaeth, a byddwn yn adolygu cynnydd y meysydd hyn drwy ein cyfarfodydd adolygu gwerthuso perfformiad â'r penaethiaid gwasanaeth a'r cyfarwyddwr. Rydym yn disgwyl y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau gwella'r awdurdod lleol. Hoffem ddiolch i bawb a wnaeth ein helpu i gynnal y archwiliad sicrwydd hwn ac i'r bobl a'r staff hynny a siaradodd â ni.

Gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd yn <https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol>

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers

Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

Arolygiaeth Gofal Cymru